# Nodyn Cyngor Cynllunio 3

## Y Siarter Cynllunio

**Cyflwyniad**
Mae'r Cyngor yn penderfynu ar geisiadau cynllunio, adeiladau rhestredig, hysbysebu a cheisiadau cysylltiedig eraill. Mae hefyd yn amddiffyn apeliadau cynllunio.

Mae gan y gwasanaeth dîm gorfodi hefyd sy'n ymchwilio i achosion o dorri cyfraith gynllunio ac yn monitro safleoedd datblygu er cydymffurfiaeth â chaniatadau cynllunio.

Rhaid gwneud pob penderfyniad yng ngoleuni Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) y Cyngor yn ogystal â'r holl ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill.

Mae'r CDLl yn cael ei baratoi gan y Cyngor ac mae'n cynnwys polisïau ar gyfer datblygu yn y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor hefyd yn paratoi dogfennau canllawiau cynllunio atodol i gynorthwyo ymgeiswyr, cymdogion a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Am restr o nodiadau canllaw, gweler gwefan y Cyngor.

**Oriau Agor**
Oherwydd gweithio ystwyth, ni allwn gynnig darpariaeth i'r cyhoedd ymweld â ni wyneb yn wyneb.

Mae swyddog ar ddyletswydd ar gael dros y ffôn/e-bost o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio Gwyliau Banc) rhwng 08.30-17.00

Byddwn yn derbyn gohebiaeth drwy lythyr neu e-bost. Bydd y ddau yn cael yr un statws.

**Rôl Swyddogion**
Mae swyddogion yn cael eu cyflogi i gynorthwyo pob defnyddiwr gwasanaeth gan gynnwys ymgeiswyr, ymgynghorwyr, cefnogwyr neu wrthwynebwyr a Chynghorwyr etholedig.

Byddant yn cyflawni eu dyletswyddau mewn modd ymatebol, teg a chyson.

**Rôl Cynghorwyr**
Mae aelodau'n chwarae rhan allweddol wrth gynghori eu hetholwyr ar sut i gymryd rhan yn y broses gynllunio.

Fodd bynnag, ni ddylai aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ddod i farn ar unrhyw gynnig cynllunio nes bod ganddynt yr holl wybodaeth angenrheidiol ger eu bron.

Os byddant yn penderfynu ar unrhyw gais ymlaen llaw drwy nodi eu barn cyn cyfarfod Pwyllgor Cynllunio, gellir eu gwahardd o'r ddadl neu'r bleidlais.

**Cyngor Cyn Ymgeisio**
Rydym yn cynnig gwasanaeth cynghori y codir tâl amdano cyn i chi gyflwyno eich cais. Mae NCC ar wahân ar gael ar y pwnc hwn, sy'n nodi ffioedd ac amserlenni ar gyfer derbyn ymateb ysgrifenedig.

**Derbyn Ceisiadau Cynllunio**
Os yw eich cais cynllunio wedi'i wneud yn anghywir, byddwch chi (neu'ch asiant) yn derbyn Hysbysiad Annilys o fewn 5 diwrnod gwaith.

Bydd hyn yn rhoi arweiniad clir i chi ar y newidiadau y mae angen i chi eu gwneud.

Bydd ceisiadau dilys yn cael eu cofrestru a'u cydnabod o fewn 5 diwrnod gwaith.

Bydd eich llythyr cydnabod yn cadarnhau'r cyfnod penderfynu targed o 8 wythnos ac yn dweud wrthych pwy yw'r swyddog achos.

**Gwneud Penderfyniad**
Bydd y swyddog achos yn ymweld â'r safle, fel arfer o fewn 3 wythnos o gofrestriad.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth, bydd yr ymgeisydd yn cael ei hysbysu cyn gynted â phosibl ac yn cael y rhesymau dros hyn. Rhoddir dyddiad cau ar gyfer cyflwyno mwy o fanylion neu gynlluniau.

Os yw'r cynnig yn annerbyniol ond gellid gwneud gwelliannau i oresgyn unrhyw wrthwynebiadau, hysbysir yr ymgeisydd cyn gynted â phosibl gyda therfyn amser ar gyfer mynd i'r afael â materion.

Gyda rhai cynigion, efallai y bydd angen mwy o amser i ystyried y cais. Bydd y Cyngor yn ceisio cytuno ar estyniad gyda'r holl geisiadau sy'n rhedeg dros y targed 8 wythnos.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb i benderfynu ar geisiadau o fewn 8 wythnos. Lle mae gwrthwynebiadau sylweddol o ran polisi cynllunio na ellir eu goresgyn, gwrthodir ceisiadau heb gyfeirio ymhellach at yr ymgeisydd.

Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu <u>ar gais yn unig</u> am gynnydd eu cais.

Bydd yr hysbysiad penderfynu yn cael ei gyhoeddi o fewn <u>tri diwrnod gwaith</u> ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud oni bai bod angen rhwymedigaeth gyfreithiol cyn cyhoeddi hysbysiad penderfynu.

**<u>Cymryd rhan yn y broses</u>**

Bydd cyhoeddusrwydd ar gyfer ceisiadau yn bodloni'r gofynion gofynnol statudol o leiaf. Mewn llawer o achosion, polisi'r Cyngor yw mynd y tu hwnt i'r gofynion gofynnol.

Mae NCC ar wahân ar gael ar y pwnc hwn.

Mae'r holl ffeiliau cais cynllunio (ac eithrio ffeiliau gorfodi) ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

Pan fydd cais yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Cynllunio, gall aelodau'r cyhoedd ac ymgeiswyr annerch y cyfarfod.

Mae NCC ar wahân ar gael ar y pwnc hwn.

Bydd angen i wrthwynebwyr/cefnogwyr i geisiadau gysylltu â'r Adran Gynllunio i gael gwybod am y penderfyniad a wnaed.

Penderfynir ar geisiadau yn unol â chynllun dirprwyo'r Cyngor.

Mae NCC ar wahân ar gael ar y pwnc hwn.

**<u>Apeliadau</u>**

Bydd swyddogion yn amddiffyn apeliadau. Fodd bynnag, ar brydiau, bydd Cynghorwyr yn cyflwyno'r achos os oedd y penderfyniad gwreiddiol yn groes i gyngor swyddog a bod Rheolwr y Gwasanaeth yn cyfarwyddo na allai swyddog gyflwyno tystiolaeth heb ragfarnu ei god ymddygiad proffesiynol ei hun.

**<u>Monitro Perfformiad</u>**

Bydd y gwasanaeth cynllunio yn cyhoeddi adroddiadau perfformiad cyfnodol i'r Pwyllgor Cynllunio.

Bydd dangosyddion perfformiad eraill yn cael eu monitro drwy Gynllun Busnes y timau.

**<u>Gwneud cwyn</u>**

Bydd pob cwyn am ddarparu gwasanaeth yn cael ei hymchwilio'n drylwyr o dan delerau'r polisi cwynion corfforaethol.

Yn y lle cyntaf, cyfeiriwch unrhyw gŵyn at y swyddog a ddeliodd â'ch achos.

Os ydych yn anfodlon â'r ymateb, dylech gysylltu â Rheolwr y Gwasanaeth drwy'r rhif ymholiadau cyffredinol isod.

**<u>Y Gymraeg</u>**

Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

Os hoffech i'ch ymholiad neu gais cynllunio gael eu trin drwy gyfrwng y Gymraeg, rhowch wybod i'ch swyddog achos.

**<u>Cysylltiadau</u>**

<u>Ymholiadau Cyffredinol</u>
01495 – 355555
planning@blaenau-gwent.gov.uk

<u>Ymholiadau Gorfodi</u>
01495 - 355513 /355814
planning@blaenau-gwent.gov.uk

Cymraeg

*Diweddarwyd Hydref 2023*